

SWYDD DDISGRIFIAD

NYRS IECHYD MEDDWL

MAES RHAGLEN / ADRAN:

Y Gwasanaethau i Ddysgwyr

SAFLE / CAMPWS:

Campws Bangor neu Llandrillo-yn-Rhos

CYFLOG BLYNYDDOL:

**GRADDFA 8 - 10 – £32,221 - £40,181 yf.
(£34,960- £43, 596 Llawn Amser)**

Y MATH O GONTRACT:

**Cyfnod penodol hyd 31/03/2025
Tymor yn Unig – 40 wythnos y flwyddyn
Llawn amser (37 awr yr wythnos)
Pennaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol
Grŵp Llandrillo Menai (Cydlynnydd ADY)**

TELERAU'R CONTRACT:

YN ATEBOL I:

PWRPAS Y SWYDD

Datblygwyd y swydd newydd hon am gyfnod penodol fel rhan o'n hymrwymiad i [Strategaeth Lles Staff a Dysgwyr Grŵp Llandrillo Menai 2021-2024](#). Gan weithio gyda'r Rheolwr ADY, Rheolwyr y Gwasanaethau i Ddysgwyr, Rheolwyr y Meysydd Rhaglen, y tiwtoriaid, BIPBC a phartneriaid allanol bydd deiliad y swydd yn hyrwyddo iechyd meddwl cadarnhaol ymhlið y dysgwyr:

- Hyfforddi a chefnogi staff:** codi ymwybyddiaeth o iechyd meddwl a'r prosesau sydd ar waith i gefnogi dysgwyr, a chynorthwyo staff sy'n cefnogi dysgwyr sydd ag anghenion iechyd meddwl.
- Adnabod:** datblygu model cynaliadwy ar gyfer adnabod dysgwyr a all fod angen cefnogaeth ychwanegol gyda'u hiechyd meddwl a'u lles emosiynol.
- Pontio:** cefnogi dysgwyr ag anghenion iechyd meddyliol ac emosiynol i drosglwyddo i'r coleg.
- Asesu:** ar y cyd â gweithwyr iechyd proffesiynol eraill, cynnal asesiadau o iechyd meddwl dysgwyr.
- Cynlluniau gofal:** ar y cyd â gweithwyr iechyd proffesiynol eraill, cynhyrchu cynlluniau gofal ar gyfer dysgwyr sydd angen cymorth gyda materion iechyd meddwl.
- Atgyfeirio** dysgwyr at asiantaethau cefnogi allanol a chomisiynu asiantaethau cefnogi allanol.
- Monitro ac adolygu'r gefnogaeth** a roddir i ddysgwyr ynghyd â'u cynlluniau gofal.
- Ymyriadau:** llunio a/neu ddarparu ymyriadau a hyfforddiant i gefnogi dysgwyr ag anghenion iechyd meddwl ac emosiynol.

PRIF DDYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEAU

Cyfrifoldebau Cyffredinol

1. Cyfrannu'n effeithiol at y gwaith o gynnig profiadau dysgu a hyfforddi o ansawdd uchel i bob dysgwr, gan ddarparu gwasanaethau mewn modd priodol ac ymatebol sy'n cyrraedd y safon uchaf bosibl o ran gofalu am gwsmeriaid.
2. Bod yn ymwybodol o holl bolisiâu, gweithdrefnau, arferion gwaith a rheoliadau'r coleg, a gweithio'n unol â hwy fel y bo'n berthnasol. Cydymffurfio'n benodol â Chynllun Cydraddoldeb, Polisi Diogelu, Rheoliadau Ariannol, Polisi Iechyd a Diogelwch a Chod Ymddygiad Grŵp Llandrillo Menai.
3. Ymgymryd â hyfforddiant a gweithgareddau datblygu staff priodol i'ch cynorthwyo i gyflawni eich dyletswyddau a darparu gwasanaethau'n effeithiol.
4. Cynorthwyo i gyflawni dyletswyddau eraill y Gwasanaethau Academaidd yn ôl yr angen ac yn unol â chyfnodau prysur a thawel trwy gydol y flwyddyn academaidd, ac ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol ar gais eich rheolwr llinell.

Prif gyfrifoldebau

5. Gweithio gyda staff Grŵp Llandrillo Menai i sefydlu diwylliant sy'n deall trawma ac sy'n gwerthfawrogi'r holl ddysgwyr a staff, sy'n gwneud iddynt deimlo eu bod yn perthyn, a'u bod yn gallu siarad am broblemau mewn ffordd nad yw'n stigmateiddio.

Staff

6. Gweithio gyda Chydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol y Grŵp, Cydlynwyr Cymorth Dysgu, Nyrs y Coleg a Thimau Gwasanaethau Dysgwyr i sicrhau bod yr holl staff sy'n gweithio yn y Grŵp yn deall effaith trawma a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn ogystal ag iechyd meddwl, a beth yw eu cyfrifoldebau o ran pobl ifanc y mae eu problemau iechyd meddwl yn golygu y gall fod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol.
7. Darparu datblygiad proffesiynol parhaus i staff sy'n esbonio mai cyfrifoldeb holl aelodau staff a chymuned y Grŵp yw hyrwyddo iechyd meddwl da, sy'n eu dysgu am arwyddion cynnar o broblemau iechyd meddwl, beth sy'n destun pryder neu ddim yn destun pryder, a beth y dylent ei wneud os ydynt yn meddwl eu bod wedi sylwi ar broblem sy'n datblygu.

8. Gweithio gyda rheolwyr y coleg a'r Tîm ADY i ddatblygu systemau a phrosesau clir ar gyfer helpu a chefnogi staff sy'n sylwi bod gan bobl ifanc broblemau iechyd meddwl posibl, a darparu cyngor a gwybodaeth i staff am eu dysgwyr ac ymgynghori â hwy fel y bo'n briodol.

9. Darparu hyfforddiant ac arweiniad i diwtoriaid a staff ar sut i gefnogi dysgwyr sy'n dangos arwyddion o ymddygiad hunan-niwedol.

Adnabod

10. Gweithio gyda rheolwyr y coleg a gweithwyr iechyd proffesiynol allanol i ddatblygu model cynaliadwy a fframwaith asesu risgiau ar gyfer adnabod dysgwyr a all fod angen cefnogaeth ychwanegol gyda'u hiechyd meddwl a'u lles emosiynol.

11. Gweithio ar y cyd â Chydlynnydd ADY y Grŵp, Cydlynwyr Cymorth Dysgu, Nyrs y Coleg a Thimau Gwasanaethau Dysgwyr, ysgolion, awdurdodau lleol a gweithwyr iechyd proffesiynol i roi'r model hwn ar waith yn unol a threfniadau pontio'r coleg.

12. Defnyddio systemau'r coleg a gweithio gyda'r staff i flaenoriaethu dysgwyr y gallai eu patrymau cyrhaeddiad, presenoldeb neu ymddygiad awgrymu bod lle i bryderu.

Asesu a chynlluniau gofal

13. Ar y cyd â gweithwyr proffesiynol priodol, cwblhau asesiadau iechyd meddwl, cytuno ar feysydd ymyrraeth a llunio cynlluniau gofal sy'n canolbwytio ar y dysgwr o ran ei ymddygiad neu'i gyflwr iechyd. Os yw'n briodol, gall y broses gynnwys y dysgwr a'i rieni/gwarcheidwaid.

14. Gweithio gyda rheolwyr y coleg a gweithwyr iechyd proffesiynol i ddatblygu a rhoi proses asesu risgiau ar waith ar gyfer ymddygiadau a all fod yn niweidiol a ffactorau sy'n gysylltiedig â chyflyrau iechyd meddwl neu hunan-niwed bwriadol.

Atgyfeirio

15. Meithrin a chynnal perthynas dda gyda gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol allanol gan gynnwys gweithwyr mewn sefydliadau gwirfoddol i hyrwyddo hunanofal a gwytnwch ymhlið dysgwyr.

16. Atgyfeirio dysgwyr sydd angen ymyriadau therapiwtig at y gweithwyr proffesiynol priodol, e.e. Meddyg Teulu, Cwnselydd, Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Blant a Phobl Ifanc (CAMHS), Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion

Monitro ac adolygu

17. Monitro ac adolygu cynlluniau gofal yn unol ag amserlen a gytunwyd, ac ar y cyd â Chydlynnydd ADY y Grŵp, Cydlynwyr Cymorth Dysgu a Thimau Gwasanaethau i Ddysgwyr, adolygu ymgysylltiad a chynnydd academaidd y dysgwyr sy'n cael eu cefnogi drwy gynllun gofal.

18. Cymryd rhan mewn trafodaethau clinigol ac adolygiadau o achosion gyda chydweithwyr mewnol a phartneriaid allanol.

19. Sicrhau bod ymyriadau'n cynnwys gwerthusiadau ar ddechrau ac ar ddiwedd y broses.

20. Sicrhau bod yr holl gofnodion yn cael eu cadw'n unol â'r rheoliadau o ran GDPR a chyfrinachedd.

Ymyriadau

21. Gweithio gyda Cydynwyr Cymorth Dysgu, Timau Gwasanaethau i Ddysgwyr a thimau cwricwlwm y coleg a gweithwyr iechyd proffesiynol allanol i adnabod, adolygu a chynllunio ystod o ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i unigolion neu grwpiau o ddysgwyr sydd / a fydd yn cael eu defnyddio gan y coleg: e.e. ymyriadau i gefnogi strategaethau ymdopi, rheoli dicter, problemau datrys problemau cymdeithasol, sgiliau trefnu, cadw'n ddiogel, gwytnwch ac ati.

22. Cefnogi cwnselwyr a mentoriaid y coleg i weithredu a chydlyn ymyriadau sy'n targedu unigolion neu grwpiau ledled y gwasanaeth ac a fydd yn cael eu gwerthuso ar ddechrau ac ar ddiwedd y broses. Yn ogystal, bydd angen darparu cymorth arbenigol yn ôl yr angen.

Dyletswyddau eraill

23. Cymryd rhan ym mhob cyfle i gryfhau profiadau'r dysgwyr a chyflawni dyletswyddau sy'n gysylltiedig â hynny yn unol â chyfarwyddyd y rheolwr, e.e. gweithgareddau recriwtio, nosweithiau agored, dyddiau cynefino, ffeiriau'r glas ac ati.

24. Bydd y swydd yn cynnwys teithio a gweithio ledled y gwahanol gampysau.

25. Gall y swydd olygu gweithio gyda'r nos ac ar benwythnosau fel y cytunwyd.

26. Yn unol â'r raddfa gyflog, ymgymryd ag unrhyw waith arall a all fod yn angenrheidiol i ymdrin â newidiadau yn y galw.

GWYBODAETH YCHWANEGOL

Bydd gofyn i chi gymryd rhan yn y sesiynau hyfforddi gorfodol a ganlyn a diweddar uchafbwyd yn y meysydd hyn:

- a. Hyfforddiant GDPR ar-lein
- b. Hyfforddiant ar-lein ar Gydraddoldeb a Hawliau Dynol
- c. PREVENT
- d. Hyfforddiant ar-lein ar ddiogelu
- e. Hyfforddiant ar Ymwybyddiaeth o lechyd a Diogelwch
- f. Hyfforddiant Cymorth Cyntaf (os yw'n berthnasol)
- g. Hyfforddiant DSE

Gall y bydd gofyn i chi deithio rhwng safleoedd GLIM a chynrychioli'r Grŵp mewn digwyddiadau cenedlaethol. Felly, mae'n hanfodol eich bod yn gallu gwneud trefniadau teithio hyblyg.

Dylid nodi mai prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd yn unig a geir yn y Swydd Ddisgrifiad hwn ac y byddant yn cael eu hadolygu'n rheolaidd mewn cydweithrediad â'ch Rheolwr Llinell a'r adran Adnoddau Dynol. Gall hyn arwain at newidiadau yn sgil gofynion gweithredol y Grŵp.

MANYLEB DEILIAD Y SWYDD

| | HANFODOL | DYMUNOL | DULL ASESU |
|---|----------|---------|---------------------------|
| CYMWYSTERAU | | | |
| Cymhwyster proffesiynol craidd: Nyrs sy'n arbenigo mewn iechyd meddwl ac sydd â chofrestriad cyfredol | ✓ | | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Yn gymwys i ymarfer o dan fesur iechyd meddwl Cymru 2010 | ✓ | | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Diploma ôl-radd neu wybodaeth, hyfforddiant a phrofiad perthnasol yn y maes arbenigol a enillwyd drwy hyfforddiant arbenigol a phrofiad ymarferol | ✓ | | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol diweddar | ✓ | | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Cymhwyster ffurfiol ychwanegol mewn defnyddio therapi cydnabyddedig | | ✓ | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Ymyriadau penodol, wedi'u targedu, sy'n seiliédig ar dystiolaeth, e.e. | | ✓ | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Cymhwyster ffurfiol mewn maes perthnasol, e.e. Datblygiad Plant, Iechyd Meddwl ac ati | | ✓ | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| GWYBODAETH A PHROFIAD | | | |
| Dealltwriaeth ragorol o broblemau ac anhwylderau iechyd meddwl | ✓ | | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Dealltwriaeth ragorol o ddynameg deuluol a materion yn ymwneud â gweithio gyda theuluoedd | ✓ | | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Dealltwriaeth o ddefnyddio dulliau therapiwtig perthnasol | ✓ | | Ffurflen Gais / Cyfweliad |

| | | | |
|---|---|---|---------------------------|
| Gwybodaeth a gwerthfawrogiad o bolisiâu cenedlaethol | ✓ | | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Dealltwriaeth o strwythurau gwasanaethau a gwaith rhyngasiantaethol | | ✓ | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Profiad perthnasol ar ôl cofrestru o weithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd mewn amgylchedd iechyd a gofal cymdeithasol neu leoliad iechyd meddwl | ✓ | | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Profiad o weithio mewn swydd glinigol benodol sy'n ymwneud â Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) | | ✓ | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Profiad arbenigol blaenorol ym maes Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) | | ✓ | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Profiad o weithio mewn amgylchedd addysg bellach | | ✓ | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Y gallu i gadw cyfrinachedd bob amser. Ymrwymiad i Gyfleoedd Cyfartal a sensitifrwydd i unrhyw faterion sy'n ymwneud â gwahaniaethu. Parodrwydd i weithredu'n gadarnhaol i sicrhau bod cyfle cyfartal ar gael i bawb. | ✓ | | Ffurflen Gais / Cyfweliad |

SGILIAU A PHRIODOLEDDAU

| | | | |
|--|---|---|---------------------------|
| Y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. ** <u>Noder</u> - fe roddir ystyriaeth i ymgeiswyr a safon ganolradd yn yr iaith Gymraeg | ✓ | | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Y gallu i gynnal asesiadau iechyd meddwl yn annibynnol drwy ofyn cwestiynau priodol, arsylwi a chofnodi'n gywir | ✓ | | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Y gallu i ddefnyddio adnoddau asesu ffurfiol / cyfweliadau clinigol | | ✓ | Ffurflen Gais / Cyfweliad |

| | | | |
|---|---|---|---------------------------|
| Y gallu i roi dulliau penodol sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar waith | ✓ | ✓ | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Y gallu i gywain a dehongli gwybodaeth ar gyfer cynllunio gofal | ✓ | | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Y gallu i ddarparu ymyriadau iechyd meddwl sy'n seiliedig ar dystiolaeth a fformiwlâu asesu | ✓ | | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Sgiliau trefnu a chyfathrebu da. Y gallu i weithio'n dda mewn tîm | ✓ | | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Y gallu i ymwneud yn effeithiol â phlant, pobl ifanc ac oedolion | ✓ | | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Y gallu i ymwneud yn dda â gweithwyr proffesiynol eraill | ✓ | | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Rheoli amser yn effeithiol | ✓ | | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Profiad o weithio gyda phobl ifanc ag anghenion iechyd meddwl. | ✓ | | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Y gallu i ymdopi ag ystod o dasgau ar yr un pryd a blaenoriaethu gwaith fel y bo'n briodol. | ✓ | | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| GOFYNION YCHWANEGOL | | | |
| Y gallu i deithio'n unol â gofynion y swydd. | ✓ | | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Ymrwymiad i ddatblygiad personol a phroffesiynol pellach a pharhaus. | ✓ | | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Ymrwymiad i Werthoedd y Grŵp. | ✓ | | Cyfweliad |
| GOFYNION GORFODOL | | | |
| <ul style="list-style-type: none"> - Mae'r Grŵp wedi ymrwymo i ddiogelu ac amddiffyn lechyd a Lles plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed. Yn unol â Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974, bydd gofyn i unigolion gael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i gadarnhau eu bod yn addas i weithio mewn amgylchedd addysgol. Bydd dystysgrifau DBS trwy wasanaeth diweddarwr DBS yn cael eu derbyn yn unol â'r canllawiau a geir yn https://www.gov.uk/dbs-update-service. - O dan adran 8 Deddf Mewnfudo a Lloches 1986, mae'n ofyniad cyfreithiol ar unigolion i ddarparu dystiolaeth ddogfennol sy'n cadarnhau bod ganddynt hawl i weithio yn y Deyrnas Unedig. | | | |
| CRYNODEB O'R TELERAU A'R AMODAU | | | |

| | |
|---|--|
| ORIAU GWAITH | 37 awr yr wythnos |
| NIFER YR WYTHNOSAU | 40 wythnos y flwyddyn |
| GWYLIAU (Wedi eu cynnwys yn y cyflog blynnyddol a nodir) | <ul style="list-style-type: none"> - 28 diwrnod y flwyddyn (01 Medi i 31 Awst), yn codi i 32 diwrnod. - 8 Gŵyl Banc / Gwyliau Cyhoeddus traddodiadol Cymru bob blwyddyn. - Hyd at 5 diwrnod effeithlonrwydd / diwrnod y trefnwyd i'r safle fod wedi cau bob blwyddyn (i'w pennu gan y Gorfforaeth). |
| PENSIWN | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (https://www.lgpsmember.org/) |
| TEITHIO | <p>Caiff y trefniadau ar gyfer ad-dalu treuliau i aelodau staff sy'n mynd i gostau ychwanegol wrth wneud gwaith swyddogol i Grŵp Llandrillo Menai eu hegluro yn y Polisi Teithio, Cynhaliaeth ac Adleoli.</p> <p>Yn dilyn eu penodiad, bydd gofyn i ymgeiswyr llwyddiannus gwblhau Ffurflen Asesu Gyrwyr ar gyfer Sgrinio Iechyd (os yw'n berthnasol). I gadarnhau bod ganddynt yswiriant i ddibenion busnes, mae'n rhaid i bob gweithiwr sy'n hawlio treuliau am ddefnyddio eu ceir personol gyflwyno copïau o'u dystysgrifau yswiriant i adran Gyllid y Grŵp bob blwyddyn.</p> |
| SGRINIO IECHYD | Rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus gael gwiriad iechyd boddhaol. Bydd gofyn i chi gwblhau holiadur iechyd ac efallai y bydd gofyn i chi gael archwiliad meddygol. |

JOB DESCRIPTION

MENTAL HEALTH NURSE

| | |
|-------------------------------------|---|
| PROGRAMME AREA / DEPARTMENT: | Learner Services |
| SITE / CAMPUS: | Bangor or Rhos on Sea campus |
| ANNUAL SALARY: | GRADE 8 - 10 – £32,221 - £40,181 p.a. (£34,960- £43, 596 - Full Time) Fixed term to 31/03/2025 |
| CONTRACT TYPE: | Term time only – 40 weeks per year |
| CONTRACT TERMS: | Full time (37 hours per week) |
| REPORTING TO: | Grŵp Llandrillo Menai Head of Additional Learning Needs (ALNCo) |

JOB PURPOSE

This new fixed term post has been developed as part of our commitment to the [Grŵp Llandrillo Menai Staff and Learner Wellbeing Strategy 2021-2024](#). Working with the ALN Manager, Learner Services Managers, Programme Area Managers, tutors, BCUHB and external partners the role will promote the positive mental health of learners:

1. **Training and support for staff:** raise awareness of mental health and the processes in place to support learners, and provide support for staff that are supporting learners with mental health needs.
2. **Identification:** development of a sustainable model for the identification of learners who may require additional support with their mental health and emotional wellbeing.
3. **Transition:** support the transition of learners with mental and emotional health needs into college.
4. **Assessment:** in liaison with other health professionals undertake mental health assessments of learners.
5. **Care plans:** in liaison with other health professionals, produce personalised care plans for learners requiring mental health support.
6. **Referral** and commissioning from external support agencies.
7. **Monitor and review** the support for the learners and their care plans.
8. **Interventions:** designing and/or delivering interventions and training to support learners with emotional and mental health needs.

MAIN DUTIES AND ACCOUNTABILITIES

General Responsibilities

1. To effectively contribute towards the delivery of a high quality educational and training experience for all learners, delivering services in a way that is appropriate and responsive and which displays the highest standard of customer care.
2. To be aware of, and work in accordance with all college policies, procedures, working practice and regulations as applicable. In particular to comply with Grŵp Llandrillo-Menai's Equality Plan, Safeguarding Policy, Financial Regulations, Health & Safety Policy and Code of Conduct.
3. To undertake appropriate training and staff development to support the effective delivery of duties and services.
4. To support other services within Academic Services as and when required, to complement work peaks and troughs throughout the academic year and to undertake any additional responsibilities as requested by your line manager.

Main responsibilities

5. To work with Grŵp Llandrillo Menai staff in embedding a trauma informed culture that values all staff and learners, allows them to feel a sense of belonging, and makes it possible to talk about problems in a non-stigmatising way.

Staff

6. To work with the Grŵp ALN Coordinator (ALNCo), Learning Support Coordinators, College Nurse and Learner Services Teams to ensure that all staff working in the Grŵp understand the impact of TRACES (trauma and adverse childhood experiences) as well as mental health, and their responsibilities to young people whose mental health difficulties mean they require additional learning provision.
7. To provide continuous professional development for staff that makes it clear that promoting good mental health is the responsibility of all members of Grŵp staff and community, informs them about early signs of mental health problems, what is and isn't a cause for concern, and what to do if they think they spotted a developing problem.
8. To work with college managers and the ALN Team to develop clear systems and processes to help and provide support to staff who identify young people with possible mental health problems; and provide advice, information and consultation to staff about their learners where appropriate.
9. Provide tutors and staff with training and guidance on how to support learners demonstrating self harm behaviours.

Identification

10. Work with college managers and external health professionals to develop a sustainable model and risk assessment framework for the identification of learners who may require additional support with their mental health and emotional wellbeing.
11. In liaison with the Grŵp ALN Coordinator (ALNCo), Learning Support Coordinators, College Nurse and Learner Services Teams, schools, local authorities, and external health professionals to implement this model in accordance with the college transition arrangements.
12. To work with college systems and personnel to prioritise learners whose patterns of attainment, attendance or behaviour might indicate a cause for concern.

Assessment and care plan

13. In conjunction with appropriate professionals, complete mental health assessments, agree areas for intervention and produce learner centred care plans in terms of behaviour or mental health conditions for learners. This can involve the learner and the parent/carer where appropriate.
14. Working with college managers and health professionals develop and implement a process for risk assessments for potentially harmful behaviours and factors related to mental health disorders or deliberate self harm.

Referral

15. Develop and maintain strong relationships with external mental health professionals including voluntary organisations to promote self care and resilience amongst learners.
16. Working with colleagues, refer learners that require therapeutic intervention to the appropriate health professional e.g. GP, CAMHS, Adult Mental Health.

Monitoring and review

17. Monitor and review care plans in line with agreed time frame; and in liaison with the Grŵp ALNCo, Learning Support Coordinators and Learner Services Teams, review the academic engagement and progress of learners supported by a care plan.
18. Participate in clinical discussion and case review with internal colleagues and external partners.
19. Ensure interventions include pre and post intervention evaluations.
20. Ensure that all records are maintained appropriately in line with GDPR and confidentiality.

Interventions

21. Work with Learning Support Coordinators, Learner Services Teams, curriculum teams and external health professionals to identify, review and plan a range of evidence based individual or group based interventions for learners that are / will be used by the college: e.g interventions to support coping strategies, anger management, social problem solving skills, organisational skills,

keeping safe, resilience etc.

22. Support college counsellors and mentors in implementing and coordinating the delivery of targeted individual/group based interventions across the service, which are evaluated pre and post; and provide specialist support as required.

Other

23. To engage in all opportunities to strengthen the learner experience and carry out all associated duties as directed by the manager such as recruitment activities, open evenings, induction days, Freshers Fairs etc.
24. The role will include travelling and working across different campuses.
25. The role may require occasional evening and weekend work as agreed.
26. Any other work commensurate with the grade as may be necessary to meet changes in demand.

ADDITIONAL INFORMATION

You will be required to undertake the following mandatory training sessions and keep training in these areas updated:

- a. GDPR online training
- b. Equality and Human Rights online training
- c. PREVENT
- d. Safeguarding on-line training
- e. Health and Safety awareness training
- f. 1st Aid training (if applicable)
- g. DSE training

There is a requirement to travel across all GLLM and Work Based Learning sites and to represent GLLM at National events. Access to suitable, flexible travel solutions is therefore a necessity.

It should be noted that this Job description merely provides a resume of the main duties and responsibilities of the post and will be subject to periodic review in conjunction with your Line Manager and Human Resources which may lead to revisions in light of the operational requirements of the Grŵp.

PERSON SPECIFICATION

| | ESSENTIAL | DESIRABLE | ASSESSMENT METHOD |
|---|-----------|-----------|------------------------------|
| QUALIFICATIONS | | | |
| Core professional qualification: Nurse with specialism in mental health with current registration | ✓ | | Application form / Interview |
| Eligible to practise under the mental health measure Wales 2010 | ✓ | | Application form / Interview |
| Post graduate diploma or relevant knowledge, training and experience in the specialist field acquired through specialist training and on the job experience | ✓ | | Application form / interview |
| Evidence of recent professional development | ✓ | | Application form / Interview |
| Additional formal qualification in a recognised therapeutic approach | | ✓ | Application form / interview |
| Specific, targeted, evidence based interventions e.g. | | ✓ | Application form / interview |
| Formal qualification in a relevant field e.g. Child Development, Mental Health etc | | ✓ | Application form / interview |
| KNOWLEDGE AND EXPERIENCE | | | |
| Excellent knowledge of mental health problems and disorders | ✓ | | Application form / Interview |
| Excellent knowledge of family dynamics and issues relating to working with families | ✓ | | Application form / Interview |
| Understanding of relevant therapeutic approaches | ✓ | | Application form / Interview |
| Knowledge and appreciation of national policies | ✓ | | Application form / Interview |
| Understanding of service structures and inter-agency working | | ✓ | Application form / Interview |
| Relevant post registration experience of working with children, young people and families in a health or social care environment or mental health setting | ✓ | | Application form / Interview |

| | | | |
|--|---|---|------------------------------|
| Experience of working in a specific clinical role relating to CAMHS | | ✓ | Application form / Interview |
| Previous specialist CAMHS experience | | ✓ | Application form / Interview |
| Experience of working with a further education environment | | ✓ | Application form / Interview |
| Ability to maintain confidentiality at all times. Be committed to Equal Opportunities and to be sensitive to any matters relating to discrimination and take positive steps to ensure that equality of opportunity is provided to all. | ✓ | | Application form / Interview |
| SKILLS AND ATTRIBUTES | | | |
| Ability to communicate through the medium of Welsh. Note: consideration will be given to applicants with an intermediate Level in the Welsh language | ✓ | | Application form / Interview |
| Able to carry out mental health assessments autonomously through appropriate questioning, observations and accurate recording | ✓ | | Application form / Interview |
| Able to use formal assessment tools / clinical interviews | | ✓ | Application form / Interview |
| Able to implement specific evidence based approaches | | ✓ | Application form / Interview |
| Able to collate and interpret information to devise care | ✓ | | Application form / Interview |
| Able to deliver evidence based mental health interventions based on assessment formulation | ✓ | | Application form / Interview |
| Good organisational skills Good communication Team Player | ✓ | | Application form / Interview |
| Able to relate to children, young people and adults effectively | ✓ | | Application form / Interview |
| Able to relate well to other professionals | ✓ | | Application form / Interview |
| Effective time management | ✓ | | Application form / Interview |

| | | | |
|--|---|--|------------------------------|
| Proven experience of working with young people with mental ill health. | ✓ | | |
| Ability to cope with a range of tasks at any one time and prioritise workload accordingly. | ✓ | | |
| ADDITIONAL REQUIREMENTS | | | |
| Able to travel as required to fulfil the requirements of the role | ✓ | | Application form / Interview |
| Commitment to further and continuous Personal and Professional Development | ✓ | | Application form / Interview |
| Commitment to Grŵp Values | ✓ | | Application form / Interview |
| MANDATORY REQUIREMENTS | | | |
| <ul style="list-style-type: none"> - The Grŵp is committed to Safeguarding and protecting the Health and Welfare of children, young people and vulnerable adults. Individuals will be required to complete an Enhanced Disclosure with the Disclosure and Barring Service in accordance with the Rehabilitation of Offenders Act 1974 to ascertain their suitability to work in an educational environment. DBS certificates via the DBS update subscription service will be accepted in accordance with guidance provided - https://www.gov.uk/dbs-update-service. - Under section 8 of the Asylum and Immigration Act 1986 individuals are required by law to provide documentary evidence confirming their eligibility to work in the United Kingdom. | | | |
| SUMMARY OF THE TERMS AND CONDITIONS OF SERVICE | | | |
| WORKING HOURS | 37 hours per week | | |
| NUMBER OF WEEKS | 40 weeks per year | | |
| HOLIDAYS (Included in the salary noted) | <ul style="list-style-type: none"> - 28 days leave per annum (01 September to 31 August) rising to 32. - 8 Bank / Public Holidays normally observed in Wales per annum. - Up to 5 days efficiency / scheduled closure days per annum (determined by the Corporation). | | |
| PENSION | Local Government Pension Scheme (https://www.lgpsmember.org/) | | |
| TRAVEL | <p>Arrangements to reimburse employees who incur additional expense whilst carrying out their official duties on behalf of the Grŵp is outlined in the Travel, Subsistence and Relocation policy.</p> <p>Successful applicants will be requested to complete a Drivers Assessment Form for Health screening upon appointment (if applicable). Copies of insurance certificates should also be provided to the Grŵp Finance department on an annual basis by all employees claiming mileage expenses for using their own car to confirm that "Business Use" insurance is in place.</p> | | |
| HEALTH SCREENING | Applicants are subject to satisfactory health clearance. You will be required to complete a health questionnaire and maybe asked to attend a medical. | | |